

❖ YR ADFENT A'R YMGNAWDOLIAD

Gwedd Agoriadol:

Diolchwn i ti, O Dduw, am y cyfle newydd hwn i gofio a diolch am y newyddion da am y Gair a wnaethpwyd yn gnawd. Gofynnwn am dy fendith ar y gwasanaeth hwn a fydd yn ein hatgoffa o wir ystyr y Nadolig ac yn ein cynorthwyo i adnabod y Duw a ddaeth mewn baban i'r byd. Amen.

Darllen: Ioan 1:1–14**Neges:**

Mae'n siŵr y bydd nifer yn dweud unwaith eto eleni mai amser i'r plant yw'r Nadolig. Nid oes amheuaeth fod plant yn mwynhau edrych ymlaen a pharatoi at y Nadolig. Unwaith eto, bydd y plant yn gwisgo fel Herod a'r doethion a'r bugeiliaid a'r angylion, ac wrth gwrs fel Mair a Joseff. Cawn ein hatgoffa ganddynt o neges fawr y Nadolig, sef Duwdod yn dyfod mewn baban i'r byd. Y cwestiwn mawr yw, a ydym yn gadael i stori fawr y Nadolig fod yn stori i blant yn unig, neu a ydym yn edrych arni fel rhywbeth sydd yn fyw ac yn rhan annatod o wir ystyr y Nadolig?

Ar ddechrau Efengyl Ioan ceir cyfeiriad at yr Arglwydd Iesu Grist fel y Gair a oedd yn y dechreuad, ac yna, yn adnod 14 gwelwn y Gair a wnaethpwyd yn gnawd ac a drigodd yn ein plith. Mae hyn yn cael sylw yn yr emyn 'Mawr oedd Crist yn nhragwyddoldeb, mawr yn gwisgo natur dyn'. Onid yw'n anhygoel fod Duw wedi ystyried ei ddatguddio ei hun ar wedd ddynol? Nid oes rhyfedd fod yr angylion wedi canu eu clod i'r goruchaf wrth weld y Gair tragwyddol yn gorwedd ar wely o wair. Oherwydd gwyddai'r angylion pwy oedd y baban bach yr oeddent yn rhyfeddu ato. Mae'r Pêr Ganiedydd yn mynegi ei ryfeddod yntau wrth iddo feddwl am hyn:

Ymhlith holl ryfeddodau'r nef
hwn yw y mwyaf un –
gweld yr anfeidrol, ddwyfol Fod
yn gwisgo natur dyn.

Fel y bydd goleuni yn llewyrchu trwy lusern, mae gogoniant y Duwdod yn disgleirio trwy gnawd yr Iesu fel y tystiolaetha'r rhai a oedd agosaf ato, a ninnau a welodd ei ogoniant. Ni allwn ddeall yr ymgnawdoliad yn llawn, ond nid yw hyn yn golygu na allwn ryfeddu ato.

Gwedd:

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, diolchwn unwaith eto am dymor yr Adfent. Cofiw'n amdano fel cyfnod o ddisgwyl ac o obaith, ac o baratoi am yr Un yr oedd y proffwydi gynt wedi cyhoeddi ei fod yn dyfod i'r byd. Boed i dymor yr Adfent i ninnau heddiw fod yn amser o ddisgwyl, o obaith ac o baratoi ar gyfer y Nadolig, yn yr ymwybyddiaeth dy fod wedi anfon dy Fab i'r byd i'n gwaredu. O Dduw ein Tad, cynorthwya ni yn ystod yr wythnosau sy'n arwain at ŵyl y Geni i baratoi i ddathlu'r ffaith dy fod wedi dyfod i lawr ar lwyfan hanes yn dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Diolchwn dy fod wedi bod yn barod i ddyfod i ganol dy greadigaeth ac i ganol hanes dyn i gynnig gobaith a goleuni i bechaduriaid gan droi ein nos yn ddydd. Unwn gyda W. Rhys Nicholas, a dweud...

Tyrd atom ni, O Grëwr pob goleuni,
tro di ein nos yn ddydd;
pâr inni weld holl lwybrau'r daith yn gloywi
dan lewyrch gras a ffydd.